RTPI
mediation of space · making of place
cyd drefnu gofod • creu cynefin

Canllaw i'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru

RTPI Cymru

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI) yn cynnig aelodaeth proffesiynol i gynllunwyr gwlad a thref yn y DU a thramor. Mae ganddo ychydig dros 1,000 o aelodau yng Nghymru, a mwy na 20,000 ledled y DU.

Mae RTPI Cymru yn cynnig gwasanaeth wedi'i deilwra i bobl broffesiynol yn y maes cynllunio yng Nghymru.

Caiff gweithgareddau RTPI Cymru eu rheoli drwy gyfrwng Bwrdd Reoli, wedi'i gefnogi gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol a Chynorthwy-ydd Gweinyddol. Sefydlwyd y strwythur hwn er mwyn cael presenoldeb mwy egnïol, perthnasol a dylanwadol yng Nghymru.

Credwn fod cynllunio gofodol yn chwarae rôl arweiniol a chanolog yn y gwaith o greu Cymru gynaliadwy a llwyddiannus, ac wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, lles cymdeithasol a diogelu'r amgylchedd.

Cymrychiolwyr Bwrdd Rheoli RTPI Cymru 2008

Amcanion RTPI Cymru yw:

- sicrhau bod gweithgareddau'r sefydliad yng Nghymru yn cael eu llywodraethu'n effeithiol ac yn effeithlon yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd, cyfle cyfartal a chyfranogiad egnïol gan aelodau;
- codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o'r pethau cadarnhaol y gall cynllunio eu cyflawni ar gyfer Cymru a'i phobl, a rhoi llais i'r Sefydliad yng Nghymru;
- hyrwyddo a rhannu gwybodaeth ac arferion da yn y maes cynllunio;
- gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i roi fframwaith strategol priodol ar gyfer cynllunio yng Nghymru;
- cefnogi dylanwad a chyfraniad y sefydliad i'r gwaith o greu polisi ar lefel y DU, Ewrop a'r byd.

Un o egwyddorion craidd gwaith RTPI Cymru, sy'n adlewyrchu ei gyfrifoldebau elusennol, yw annog y broses o gyflwyno polisïau cynllunio gwell sy'n cefnogi buddiannau ehangach y cyhoedd.
Ar lefel y DU, mae RTPI Cymru yn cael ei gynrychioli ar baneli, pwyllgorau a Senedd Gyffredinol RTPI

Cynllunio yng Nghymru

Mae sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chyfrifoldeb datganoledig dros gynllunio, yn golygu bod Cymru wedi datblygu ei hagenda gynllunio ei hun, a honno'n agenda fwyfwy dargyfeiriol. Mae hyn yn cynnwys effaith Polisi Cynllunio Cymru, datblygu system y Cynllun Datblygu Lleol (LDP) a phwerau deddfwriaeth sylfaenol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae gan Gymru ei chynllun gofodol ei hun - Pobl, Lleoedd, Dyfodol - a'i Chynllun Datblygu Cynaliadwy ei hun, sy'n ychwanegu blas unigryw at y broses gynllunio. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am wneud ei gwaith ymchwil a'i hymgynghoriadau ei hun ac am ystod eang o is-ddeddfwriaeth, yn ogystal â chyfrannu at ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli.

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, gyda 28% o'r boblogaeth yn gallu siarad, darllen a / neu ysgrifennu'r Gymraeg. Disgwylir ac anogir cyrff cyhoeddus, ac yn gynyddol y sector preifat a'r sector gwirfoddol, i allu cyfathrebu'n ddwyieithog.
Mae angen i wasanaethau a pholisïau cynllunio ymateb i hyn, sy'n gwneud cynllunio yng Nghymru yn wahanol eto i rannau eraill y DU.

Mae daearyddiaeth a dosbarthiad poblogaeth Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn lleoliad ein haelodau, gyda thua 55% yn y De-ddwyrain, 20% yn y De-orllewin, 20% yn y Gogledd a 5% yn y Canolbarth.

Aelodaeth RTPI yng Nghymru	
Aelodau Corfforaethol	733
Aelodau Cydymaith	3
Aelodau Technegol	8
Aelodau Trwyddedig	58
Aelodau sy'n Fyfyrwyr	112
Aelodau sydd wedi Ymddeol	98
	Gwanwyn 2008

Polisi

Er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ac unigrwydd systemau a pholisïau cynllunio Cymru, mae gan RTPI Cymru ei Fforwm Polisi ac Ymchwil ei hun. Mae'r Fforwm yn cynnwys aelodau o bob cwr o Gymru ac o wahanol sectorau, sy'n cynnig ystod o wybodaeth arbenigol i'r Fforwm. Nod y Fforwm yw arwain y broses o ddatblygu cynllunio a pholisi cysylltiedig a nodi ymchwil i gefnogi hyn.

Mae'r Fforwm yn croesawu cyfraniadau gan aelodau yng Nghymru wrth ystyried polisïau. Enghraifft dda o hyn yw'r ymgynghoriad ar Ddiweddaru Cynllun Gofodol Cymru, lle defnyddiwyd trafodaethau mewn gweithdai yng Nghaerdydd a Bangor, a fynychwyd gan fwy na 100 o gynllunwyr, i lywio ymateb y Fforwm ei hun i'r ymgynghoriad.

Gellir gweld holl ymatebion y Fforwm i ymgynghoriadau ar dudalennau gwe RTPI Cymru.

Gweithdy i gynllunwyr ar Gynllun Gofodol Cymru, Caerdydd

Cydweithio

Mae RTPI Cymru yn cydnabod pwysigrwydd partneriaethau wrth gyflwyno ei amcanion, ac yn mynd ati i weithio'n agos â sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, Comisiwn Dylunio Cymru, Cymorth Cynllunio Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW), ymysg eraill.

Y Senedd, llun trwy garedigrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Er bod mwyafrif y cynllunwyr sy'n gweithio yng Nghymru wedi'u cyflogi gan y sector cyhoeddus (tua 57%), mae'r rheini sy'n gweithio yn y sector preifat (21% o aelodau) hefyd yn bwysig, yn ogystal â'r rheini sy'n gweithio mewn sefydliadau eraill. Mae RTPI Cymru yn awyddus i weithio gydag asiantaethau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, i gyflwyno gweithgareddau a diwallu anghenion holl gynllunwyr Cymru.

Regeneration Skills Collective Wales

Mae Cydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru (RSCW) yn hyrwyddo cydweithio rhwng gwahanol feysydd proffesiynol. Mae RTPI Cymru yn un o chwe aelod, ynghyd â Sefydliad Tai Siartredig Cymru (CIH Cymru); Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru (ICE); Sefydliad Tirwedd Cymru (LIW); Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig - Cymru (RICS Cymru): a Chymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW), sy'n cydweithio i gynnal gweithgareddau a phrosiectau ar y cyd, gan annog dealltwriaeth ar draws ffiniau proffesiynol.

Gweithgareddau

Mae RTPI Cymru yn cyflwyno ystod o weithgareddau Datblygu Proffesiynol Parhaus (CPD) ledled Cymru, llawer ohonynt mewn partneriaeth â chyrff eraill, er mwyn cynnig ystod o opsiynau i'n haelodau. Mae'r Sefydliad yn cynnig tri digwyddiad proffil rheolaidd yng Nghymru bob blwyddyn, gan gynnwys y Cinio Blynyddol, y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sy'n cynnwys anerchiad ar bwnc penodol, ac, o 2008 ymlaen, cynhadledd Cymru-gyfan flynyddol.

Mae RTPI Cymru yn cydnabod ei bod yn bwysig cyfathrebu ag aelodau ac i aelodau gyfathrebu â'i gilydd. Ceir tudalennau penodol ar wefan RTPI, sy'n cynnwys newyddion am ddigwyddiadau a pholisïau, a chaiff y tudalennau hyn eu diweddaru'n rheolaidd. Mae Cynllunio, sef cylchlythyr chwarterol RTPI Cymru, a anfonir at bob aelod yng Nghymru, yn cynnwys newyddion ac eitemau. Anogir aelodau i gyfrannu, yn enwedig i rannu profiadau a mynegi barn ar wahanol faterion a phrosiectau.

Owain Wyn yn cyflwyno Gwobr Cynllunio Cymru 2007 i Gwyn Roberts o Galeri Caernarfon Cyf

Cynhelir Gwobrau Cynllunio Cymru bob blwyddyn i gydnabod, cymeradwyo a hysbysebu enghreifftiau o arfer da yng Nghymru a chânt eu cyflwyno yn ystod y Cinio Blynyddol. Yn 2007, yr enillydd oedd canolfan fenter greadigol y Galeri yng Nghaernarfon.

Cysylltwch â RTPI Cymru

e-bost: wales@rtpi.org.uk
gwe: http://www.rtpi.org.uk/rtpi_cymru/
ffôn: 029 2049 8215
Blwch SP 2465
Caerdydd
CF23 0DS

Staff

Cyfarwyddwr Cenedlaethol — Roisin Willmott, BA MSc, PhD, MRTPI
roisin.willmott@rtpi.org.uk

Cynorthwy-ydd Gweinyddol — Georgina Roberts
georgina.roberts@rtpi.org.uk

Swyddfa'r DU

41 Botolph Lane
London EC3R 8DL
ffôn: 020 7929 9494
e-bost: online@rtpi.org.uk

Cofrestrwyd fel elusen
yng Nghymru a Lloegr: Rhif 262865 ac yn yr Alban: SC037841

Mathau o Aelodaeth RTPI

Aelodau Siartredig - pobl broffesiynol sydd â chymwysterau cynllunio graddedig cymeradwy ac o leiaf ddwy flynedd o brofiad perthnasol yn y maes cynllunio.

Aelodau Technegol – staff cynllunio medrus a phrofiadol, o safbwynt gweinyddol, technegol neu orfodaeth, sy'n ymwneud â gweithgareddau allweddol o ran cynllunio gofodol ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer Aelodaeth Siartredig.

Aelodau Cydymaith Cyfreithiol - ymarferwyr cyfreithiol cymwys sy'n arbenigo mewn, neu sydd â phrofiad helaeth o gyfraith gynllunio, nad ydynt yn gymwys am Aelodaeth Siartredig.

Aelodau Cydymaith – pobl broffesiynol sy'n ymwneud â chynllunio gofodol, nad ydynt yn meddu ar gymhwyster a achredir gan RTPI a/neu nad ydynt yn gymwys am Aelodaeth Siartredig.

Aelodau Trwyddedig – graddedigion o gyrsiau a achredir gan RTPI sy'n cael eu cyflogi'n broffesiynol ym maes cynllunio gofodol ac a hoffai weithio tuag at Aelodaeth Siartredig drwy gyfrwng yr Asesiad o Gymhwysedd Proffesiynol (APC).

Aelodau sy'n Fyfyrwyr - myfyrwyr rhan-amser neu amser llawn a/neu raddedigion cynllunio cyflogedig nad ydynt yn gymwys am unrhyw fath arall o aelodaeth.

Aelodau Rhad ac am Ddim – myfyrwyr blwyddyn olaf ar gyrsiau a achredir gan RTPI.

Mae rhagor o wybodaeth ar Aelodaeth ar gael ar wefan RTPI: www.rtpi.org.uk